Department
for Culture
Media & Sport

# Adolygiad o Siarter y BBC 2016

## Taflen wybodaeth - Cyllid

*Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisïau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.*

**Cefndir**

Defnyddir refeniw o ffi'r drwydded deledu i ariannu'r BBC (yn ogystal â gwasanethau eraill megis y darlledwr Cymraeg, S4C, a phrosiectau seilwaith megis darparu band eang cyflym iawn). Derbyniodd y BBC £3.7 biliwn o arian cyhoeddus o ffi'r drwydded deledu yn 2015-16.

**Polisi'r llywodraeth**

Mae'r Papur Gwyn wedi amlinellu nifer o ymrwymiadau a wnaed gan y BBC a'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod gan y BBC fodel ariannu cynaliadwy, sy'n deg, yn atebol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Bydd ffi'r drwydded yn codi gyda chwyddiant dros bum mlynedd o 2017/18 a bydd hyn yn rhoi'r cyllid sydd ei angen ar y BBC i ffynnu a chyflawni yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion wedi'u diweddaru. Fodd bynnag, rhaid i'r BBC barhau i gyflawni gwerth i dalwr ffi'r drwydded.

Mae'r llywodraeth yn glir mai ffi'r drwydded, er gwaethaf rhai anfanteision, yw'r ffordd orau o ariannu'r BBC dros gyfnod y Siarter nesaf. Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Gorfodi Ffi'r Drwydded Deledu (Perry), tra bod y system bresennol o gasglu ffi'r drwydded ar waith, y dylid cynnal y system bresennol o atal troseddu ac erlyn. Fodd bynnag, mae angen i ffi'r drwydded fod yn decach ac yn haws i'w thalu i'r rhai sydd ar incwm is ac i bob talwr ffi'r drwydded.

**Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb**

Siarter

- Mae **Erthyglau 36-39** yn nodi'r fanyleb ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, gan gynnwys pwerau archwilio ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
- Mae **Erthygl 43** yn nodi'r broses ar gyfer setliadau ariannu yn y dyfodol. Bydd hyn yn gwella annibyniaeth y BBC ar y llywodraeth drwy gyflwyno proses unioni newydd ar gyfer setliad ffi'r drwydded unwaith bob pum mlynedd.

*Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review. Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â enquiries@culture.gov.uk*
*Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210*

Cytundeb

- Mae **Cymalau 33 a 34** yn sicrhau cyllid a ddiogelir i'r World Service, sef un o wasanaethau mwyaf nodedig y BBC. Caiff ei werthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd ac mae ei gyrhaeddiad a'i enw da yn helpu i hyrwyddo gwerthoedd diwylliannol a democrataidd y DU i fwy na 246 miliwn o bobl ledled y byd. Mae'n rhaid darparu isafswm cyllid o £254m y flwyddyn am gyfnod y Siarter.
- Mae **Cymal 39** yn nodi'r bartneriaeth a'r model ariannu ar gyfer S4C. Mae hyn yn cynnwys £74.5 miliwn o gyllid o Ffi'r Drwydded tan 2020/2021; bydd cyllid y tu hwnt i hyn yn destun adolygiad. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr o S4C yn 2017 - yn dilyn yr Adolygiad o'r Siarter - a fydd yn edrych ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys trefniadau ariannu, cylch gwaith, atebolrwydd a llywodraethu.
- Mae **Cymalau 43 a 48** yn cadarnhau y bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o ryddid i'r BBC reoli ei gyllidebau ei hun drwy ddileu cyllid a ddiogelir ar gyfer band eang (£150 miliwn y flwyddyn) a theledu lleol (£5 miliwn y flwyddyn) er y bydd y BBC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gorsafoedd teledu lleol.
- Mae **Cymal 49** yn nodi telerau ariannu a grantiau ffi'r drwydded gan Adrannau'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth ychwanegol i gyllid y BBC drwy ganiatáu i'r rheini sy'n 75 oed a throsodd wneud taliadau gwirfoddol os dewisant, tra'n parhau i ddiogelu'r consesiwn ar gyfer ffi'r drwydded i'r rheiny sy'n 75 oed a throsodd yn ystod y Senedd hon.
- Mae **Cymal 50** yn grymuso'r BBC i dreialu rhai elfennau tanysgrifio yn ychwanegol i'w wasanaethau presennol, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Mae **Cymal 52** yn nodi'r telerau iawndal ar gyfer trwyddedau teledu am ddim i'r rheiny sy'n 75 oed a throsodd. Cytunodd y BBC llynedd i gwmpasu costau trwyddedau consesiynol gan y llywodraeth, a chytunodd y llywodraeth y caiff y gost hon ei chyflwyno dros dair blynedd, er mwyn galluogi'r BBC i baratoi ar gyfer dileu cyllid y llywodraeth. Gofynnodd y BBC hefyd i'r cyfrifoldeb am y polisi gael ei drosglwyddo iddynt yn 2020/21, a gaiff ei roi ar waith drwy'r **Mesur Economi Ddigidol,** gan ei fod yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.
- Mae **Cymal 53** yn nodi telerau benthyca'r BBC.

**Gweithgaredd deddfwriaethol arall**

Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r Mesur Economi Digidol yn cynnwys cymal i reoli a throsglwyddo'r cyfrifoldeb polisi ar gyfer consesiwn ffi'r drwydded deledu ar gyfer y rheiny sy'n 75 oed a throsodd. Gofynnodd y BBC am hyn fel rhan o gytundeb cyllideb haf 2015. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i ddarparu ar gyfer pob consesiwn arall fel y nodir yn Neddf Cyfathrebu 2003.

At hyn bydd nifer o fesurau yn cael eu rhoi ar waith drwy is-ddedfwriaeth yn flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cynnwys:

- moderneiddio system ffi'r drwydded i'w gwneud yn fwy teg, drwy gau'r ffordd ymwared o ran iPlayer (a ddaeth i rym ar 1 Medi 2016);
- cynyddu lefel ffi'r drwydded a fydd yn codi gyda chwyddiant dros bum mlynedd o 2017/18; a
- chyflwyno treial o gynlluniau talu hyblyg ar gyfer y rheiny ar incwm is.